# Llwybrau Cerdded i Ysgolion RhCT
# Asesu

## Tonypandy / Pont-y-gwaith / Trealaw i Ysgol Gyfun Cwm Rhondda

Mawrth 2025



REDSTART

## YMWADIAD CYFFREDINOL:

Cafodd yr adroddiad yma ei baratoi gan Redstart o blaid Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (“y Cleient”) ac mae at ddefnydd a budd y Cleient yn unig yn unol â'r cytundeb rhwng y Cleient a Redstart y cafodd gwasanaethau Redstart eu cyflawni oddi tano. Heblaw am atebolrwydd nad oes modd ei eithrio yn ôl y gyfraith, dydy Redstart ddim yn derbyn unrhyw atebolrwydd i unrhyw barti arall mewn perthynas â chynnwys yr adroddiad yma.

Er y cymerwyd gofal wrth lunio'r adroddiad yma, mae'r casgliadau a'r argymhellion sydd ynddo yn seiliedig ar wybodaeth a gafodd ei darparu gan drydydd parti (“Gwybodaeth Trydydd Parti”). At ddibenion yr adroddiad yma, mae Redstart wedi dibynnu ar yr Wybodaeth Trydydd Parti a chymryd yn ganiataol ei bod yn gywir ac yn gyflawn. Nid yw wedi gwirio gwybodaeth o'r fath yn annibynnol at ddibenion yr adroddiad yma. Dydy Redstart ddim yn gwneud unrhyw gynrychiolaeth, gwarant nac ymgymeriad (datganedig neu ymhlyg) yng nghyd-destun Gwybodaeth Trydydd Parti a dydy Redstart ddim yn cymryd nac yn derbyn cyfrifoldeb am ddigonolrwydd, cyflawnrwydd na chywirdeb yr adroddiad yng nghyd-destun yr Wybodaeth Trydydd Parti sy'n sail iddo.

## RHYDDID GWYBODAETH:

Mae Redstart yn deall ac yn cydnabod rhwymedigaethau a chyfrifoldebau cyfreithiol yr Awdurdod o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (y “Ddeddf”) ac mae'n llwyr werthfawrogi y gallai fod yn ofynnol i'r Awdurdod ddatgelu unrhyw wybodaeth sydd ganddo o dan delerau'r Ddeddf.

# Cynnwys

1. Cyflwyniad 1
2. Aliniad Polisi 2
3. Gweithdrefnau 4
4. Lleoliad y Safle a Llwybr Cerdded 5
5. Arolygon Cerddwyr / Traffig 32
6. Materion Cymdeithasol 35
7. Data Gwrthdrawiadau 36
8. Trosolwg Llwybr 37
9. Casgliadau ac Argymhellion 41

# 1. Cyflwyniad

1.1 Mae Redstart wedi cael ei gomisiynu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf i gynnal asesiad er mwyn pennu argaeledd y llwybr(au) cerdded canlynol rhwng y lleoliadau canlynol:

- **Prif Lwybr** - Gorsaf Fysiau Tonypandy i Ysgol Gyfun Cwm Rhondda.
- **Is-lwybr 1** – Pont-y-gwaith i Ysgol Gyfun Cwm Rhondda.
- **Is-lwybr 2** – The Colliers, Trealaw i Sgwâr Tynewydd (gan ymuno ag Is-lwybr 1).

1.2 A siarad yn gyffredinol, bydd llwybr ar gael os yw'n ddigon diogel i ddisgybl gerdded ar ei ben ei hun, neu yng nghwmni oedolyn priodol, gan ddibynnu ar oedran y disgybl. Yn rhan o waith asesu'r llwybr cerdded, bydd asesiad o'r peryglon sy'n wynebu plant a'r rhieni/cynhalwyr sy'n eu hebrwng ar hyd y llwybr rhwng y cartref a'r ysgol angen yn cael ei gynnal.

1.3 Bydd asesiadau o'r fath yn dilyn Darpariaethau Statudol Llywodraeth Cymru ar yr Asesiad Risg o Lwybrau Cerdded i'r Ysgol, fel y nodir yn Narpariaeth Statudol a Chanllawiau Gweithredol Teithio gan Ddysgwyr 2014.

# 2. Aliniad Polisi

2.1 Mae Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 yn nodi'r fframwaith cyfreithiol y gwneir darpariaethau teithio oddi mewn iddo ar gyfer dysgwyr sy'n teithio o'r cartref i'r ysgol. Ym mis Mehefin 2014, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Ddarpariaeth Statudol a Chanllawiau Gweithredol Teithio gan Ddysgwyr i gynorthwyo awdurdodau lleol i roi'r Mesur ar waith.

2.2 Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd gyfreithiol i asesu anghenion teithio dysgwyr sy'n cerdded i'r ysgol. Mae'r Ddarpariaeth Statudol a Chanllawiau Gweithredol Teithio gan Ddysgwyr yn galluogi awdurdodau lleol i benderfynu a yw llwybr i'r ysgol 'ar gael' (diogel) i'w gerdded neu'n cael ei ystyried 'ddim ar gael' (anniogel) a'r mesurau diogelu y gellid eu rhoi ar waith i sicrhau bod y llwybr 'ar gael' (yn ddiogel) i'w gerdded neu y gall ddod yn 'ddiogel'.

2.3 Mae dogfen Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r materion a ganlyn gael eu hystyried wrth asesu llwybr;

Er mwyn i lwybr gael ei ddosbarthu'n un sydd ar gael (diogel) mae angen i'r llwybr fod;

- Yn droedffordd ddigonol barhaus ar ffyrdd sy'n cludo traffig canolig i drwm; **neu**
- "Camau i lawr" ar ffyrdd sydd â llif traffig isel ond llinellau gweld digonol i roi digon o rybudd ymlaen llaw i yrwyr a cherddwyr; **neu**
- Ar ffyrdd gyda llif traffig isel iawn, dim "camau i lawr", ond digon o linellau gweld da i roi digon o rybudd ymlaen llaw.

Os oes angen croesi ffyrdd, argymhellir bod un o'r mesurau diogelwch canlynol:

- Lloches i gerddwyr; **neu**
- Gwelededd – dylai fod yn ddigon da i ganiatáu i gerbydau stopio'n ddiogel (o ystyried y rheol cyflymder yr 85fed canradd, mae pellteroedd stopio cerbydau fel y rhai a nodir yn Rheolau'r Ffordd Fawr); **neu**
- Digon o fylchau yn llif y traffig a'r llinell weld i ganiatáu digon o gyfleoedd i groesi'n ddiogel; **neu**
- Digon o gyfleusterau croesi (er enghraifft, croesfannau sebra, pelican); **neu**
- Digon o gamau i gerddwyr wrth y goleuadau traffig (gan gynnwys llochesi angenrheidiol); **neu**
- Digon o Hebryngwyr Croesfan Ysgol (pobl lolipop).

2.4 Dylid ystyried y wybodaeth ganlynol fel y manylir yn y ddogfen Teithio gan Ddysgwyr a'i chrynhoi isod:

a) Cyfyngiadau cyflymder o gwmpas neu gerllaw ysgolion;

b) Llif traffig dwy ffordd a gofnodir mewn Unedau Ceir Teithwyr (PCUs) - mae llif traffig isel yn cael ei bennu o dan 400 o gerbydau mewn cyfnod o awr, llif traffig canolig rhwng 400 ac 840 a llif traffig trwm dros 840 o gerbydau yr awr. Asesir bod ffordd â llai na 240 o gerbydau yr awr yn ddiogel i'w chroesi, sy'n cyfateb i 1 cerbyd bob 15 eiliad;

c) Mae angen dadansoddiad o fylchau mewn traffig am 5 munud yn olynol. Ystyrir bod 4 bwlch o fewn cyfnod o 5 munud o'r fath yn dderbyniol. Ar gyflymder cerdded o 1 metr yr eiliad bydd y rhan fwyaf o bobl yn gallu croesi dwy lôn o draffig trefol arferol mewn 4 i 6 eiliad tra bydd angen bwlch mwy o tua 10 i 12 eiliad ar eraill;

d) Hanes gwrthdrawiadau blaenorol am 3 blynedd o leiaf;

e) Lled, cyflwr, a gwelededd llwybr troed. Ar ffyrdd â llif traffig isel gellir tybio fel arfer bod llain ymyl y gall plentyn a'r rhiant sy'n ei hebrwng gamu arni pan fydd traffig yn mynd heibio yn darparu llwybr sydd ar gael;

f) Lle mae angen croesi ffyrdd, argymhellir y dylid ystyried argaeledd cyfleusterau croesi megis llochesi canolog, croesfannau cerddwyr neu arwyddion traffig;

g) Dylid ystyried llifogydd posibl ac, os oes angen, nodweddion diogelwch gan gynnwys arwyddion, goleuadau, rhwystrau diogelwch;

h) Unrhyw newidiadau arfaethedig i'r ardal a allai gael effaith ar lwybrau cerddwyr;

i) Croesfannau rheilffordd;

j) Perygl cymdeithasol a achosir gan unrhyw ymddygiad gwrthgymdeithasol posibl;

k) Unrhyw newidiadau i nodweddion y bobl sy'n cerdded y llwybr.

2.5 Mae Perygl Cymdeithasol yn agored i ddehongliadau gwahanol ac mae'n oddrychol. O ran mesur perygl cymdeithasol, dylai tystiolaeth fod ar fael i nodi unrhyw beryglon o'r fath.

2.6 Wrth gynnal asesiadau risg, argymhellir bod awdurdodau lleol yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau/asiantaethau sydd ag arbenigedd mewn (gan gynnwys cyfrifoldeb am) fynd i'r afael â pherygl cymdeithasol a'i fesur. Mae gan yr Heddlu neu Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu gyfrifoldeb am droseddu, anhrefn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, tra bod y Byrddau Lleol Diogelu Plant yn gyfrifol am faterion diogelu/amddiffyn plant.

2.7 Mae eu cyfranogiad yn cynnwys cyfnewid gwybodaeth, asesu, a rheoli unrhyw risgiau o'r fath. Felly, nid yw Redstart wedi'i gomisiynu i nodi materion yn ymwneud â pheryglon cymdeithasol a achosir gan ymddygiad gwrthgymdeithasol.

# 3. Gweithdrefnau

## 3.1 Ymweliad Safle

3.1.1 Cynhaliwyd asesiad safle ar droed i ymchwilio i'r llwybr ac i nodi peryglon / gwaith adfer posibl sydd ei angen er mwyn darparu llwybr cerdded diogel. Cafodd y llwybr ei gerdded ar adegau i ddal amodau traffig arferol yn ystod yr amser yr oedd plant ysgol yn cerdded y llwybr.

3.1.2 Rhestrir isod enghreifftiau o beryglon safle nodweddiadol a fydd yn cael eu hystyried o ganlyniad i'r asesiad cerdded:

- Rhyng-welededd rhwng gyrwyr a cherddwyr, ar hyd y llwybr ac ar gyffyrdd bach;
- Nifer uchel o draffig wrth groesfannau a mathau o gerbydau sy'n defnyddio'r llwybr;
- Cyflwr wyneb y llwybr troed, lled defnyddiadwy, a chysylltedd rhwng llwybrau troed cyfagos;
- Unrhyw ddail sydd wedi gordyfu sy'n rhwystro symudiadau cerddwyr/sy'n culhau'r lled defnyddiadwy;
- Cerbydau'n parcio ar y droedffordd gan achosi rhwystr/gan gulhau'r lled defnyddiadwy.

## 3.2 Gwybodaeth i'w Darparu

3.2.1 Mae'r wybodaeth ganlynol i'w darparu yn rhan o'r asesiad:

a) Cynllun yn dangos y llwybrau a aseswyd;


b) Adroddiad yn nodi peryglon/risgiau posibl ac adferiad posibl ar gyfer pob perygl posibl a nodwyd.

# 4. Lleoliad y Safle a Llwybr Cerdded

## 4.1 Trosolwg o'r Llwybr (Prif Lwybr ac Is-lwybrau cyfagos)

4.1.1 Mae'r **Prif Lwybr** i Ysgol Gyfun Cwm Rhondda, Ffordd Graigwen, Porth CF39 9HA yn cychwyn yng Ngorsaf Fysiau Tonypandy, oddi ar Stryd y Llys, Tonypandy CF40 2RF. Mae dau is-lwybr arall o Bont-y-gwaith a Threalaw wedi'u hasesu yn rhan o'r adroddiad hwn a dangosir y rhain yn **Nelwedd 4.1 isod.**

**Delwedd 4.1 – Llwybr 4 – Prif Lwybr ac Is-lwybrau i Ysgol Gyfun Cwm Rhondda (Delwedd © 2024 Airbus)**



- **Prif Lwybr** – Gorsaf Fysiau Tonypandy i Ysgol Gyfun Cwm Rhondda ar hyd Stryd y Llys, Stryd De Winton, Stryd Dunraven, Heol Tyla-celyn, Bryn Amos, Heol Cernyw, Stryd Arthur, Stryd yr Ysgol, Heol y Mynydd, Heol Edmondstown, Teras Brocks, Trem y Glyn, Teras yr Olewydd, yr A4233 Heol Trebanog i brif fynedfa Ysgol Gyfun Cwm Rhondda.
- **Is-lwybr 1** – Pont-y-gwaith i Ysgol Gyfun Cwm Rhondda heibio i Arosfan Bws Teras y Bragdy, Heol y Bragdy, Stryd Llywellyn, Stryd Margaret, Teras Lewis, Heol Aberllechau, llwybr i'r bont droed dros yr A4233, Heol Ynys-hir, Heol Aber-rhondda, Sgwâr Tynewydd, Heol Rheola, Stryd y Porth, Pont Cymer, Stryd Fawr, Cilgant Catrin, Ffordd Graigwen i fynedfa isaf Ysgol Gyfun Cwm Rhondda.
- **Is-lwybr 2** - The Colliers, Trealaw i Sgwâr Tynewydd trwy Heol Ynyscynon, Stryd Rhys, Y Teras Brenhinol, Heol Brithweunydd, Ffordd y Fynwent gan ymuno ag Is-lwybr 1 yn Sgwâr Tynewydd.

4.1.2 Mae darnau di-dor o droedffordd, gyda chyfleoedd croesi a goleuadau stryd ar hyd y llwybr. Yn gyffredinol, mae llwybrau troed ar hyd y llwybrau'n ddigon llydan i ganiatáu i gerddwyr fynd heibio'i gilydd yn ddidrafferth. Maent yn culhau ar rai rhannau byr ac mae rhaid i gerddwyr naill ai ildio i'w gilydd neu groesi i ochr arall y ffordd. Mae'r llwybrau cerdded canlynol eisoes yn cael eu defnyddio ac ar gael:

- Mae disgyblion Ysgol Gyfun Cwm Rhondda yn cerdded o strydoedd o amgylch Cylchfan Pen-y-graig ac mae'r llwybr eisoes ar gael ac yn cael ei ddefnyddio bob dydd.
- Mae llwybrau cerdded i Ysgol Nantgwyn o ardaloedd Trewiliam, Tonypandy, Pen-y-graig hefyd eisoes ar gael ac yn cael eu defnyddio bob dydd.
- Mae cysylltiadau i / o ysgolion cynradd Ysgol Gynradd y Seintiau Gabriel a Raphael Eglwys Gatholig Rhufain a Threwiliam eisoes ar gael ac yn cael eu defnyddio bob dydd.
- Mae'r llwybr o Bont-y-gwaith eisoes ar gael ac yn cael ei ddefnyddio bob dydd gan ddisgyblion sy'n mynd i Ysgol Gynradd Pont-y-gwaith, gyda disgyblion uwchradd yn cerdded o Wattstown Isaf ac Ynys-hir i Ysgol Gymuned y Porth ac o'r Cymer i Ysgol Gymuned y Porth.
- Mae disgyblion o Drealaw yn cerdded i Ysgol Gymuned y Porth, ac mae cysylltiadau lleol ag Ysgol Gynradd Trealaw eisoes ar gael ac yn cael eu defnyddio bob dydd.

4.1.3 Lle'r oedd angen croesi ffyrdd ymyl, ystyriwyd bod gwrthdaro rhwng cerbydau/cerddwyr yn risg isel.

4.1.4 Darperir cysylltedd rhwng llwybrau troed drwy gydol y daith gan groesfannau sebra, signalau traffig, lloches ganolog a mannau croesi heb eu rheoli eraill.

4.1.5 Mae terfynau cyflymder yn amrywio ar hyd y llwybrau, ond mae terfyn cyflymder o 20mya ar waith ar hyd y rhan fwyaf o'r llwybrau ac mae llifau cerbydau yn gymedrol i uchel.

4.1.6 Mewn mannau, roedd angen clirio llystyfiant i wella lled y llwybr troed y gellir ei ddefnyddio a gweledédd i gerddwyr


4.1.7 Mae ffotograffau a dynnwyd ar hyd y llwybrau cerdded i'w gweld isod.

## 4.2 Prif Lwybr – Gorsaf Fysiau Tonypandy i Ysgol Gyfun Cwm Rhondda

4.2.1 Tynnwyd ffotograffau 4.1 i 4.18 ar hyd y **Prif Lwybr** o Orsaf Fysiau Tonypandy i fynedfa uchaf Ysgol Gyfun Cwm Rhondda.

4.2.2 Mae'r Prif Lwybr o fewn terfyn cyflymder o 30/20mya, gyda llifau a chyflymder cerbydau i'w gweld yn gymedrol i uchel, ac roedd nifer y cerddwyr yn isel yn ystod amser yr asesiad.

**Ffotograff 4.1 – Croesfan heb ei rheoli (lloches i gerddwyr) yn Sgwâr Tonypandy**



**Ffotograff 4.2 – Croesfan sebra wedi'i rheoli y tu allan i Feddygfa St. Andrews ar Stryd De Winton**




**Ffotograff 4.3 – Croesfan sebra wedi'i rheoli y tu allan i'r CF40 Experience ar Stryd Dunraven**



**Ffotograff 4.4 – Man croesi heb ei reoli yng Nghanol Tref Tonypandy**




**Ffotograff 4.5 a 4.6 – Croesfannau wedi'u rheoli â signalau ar y cyffyrdd rhwng Heol Gelli a Stryd Dunraven**






**Ffotograff 4.7 – Croesfan wedi'i rheoli â signalau y tu allan i Iceland ar Stryd Dunraven**



**Ffotograff 4.8 – Croesfan wedi'i rheoli â signalau y tu allan i'r Co-Op ym Mhen-y-graig ar y B4278 Heol Tyle-celyn**




**Ffotograff 4.9 – Croesfan sebra wedi'i rheoli yn y maes parcio ym Mhen-y-graig ar y B4278 Heol Tyle-celyn**



**Ffotograff 4.10 – Croesfan sebra wedi'i rheoli  y tu allan i rif 2 Teras yr Elyrch, Pen-y-graig**




**Ffotograff 4.11 – Parcio ar y stryd yn cyfyngu ar led llwybrau troed ar hyd Bryn Amos, Pen-y-graig**



**Ffotograff 4.12 – Llwybr troed cul ar hyd y llwybr troed gogleddol ar Bryn Amos. Nodir fodd bynnag bod y llwybr troed deheuol ar gael.**




**Ffotograff 4.13 – Wyneb ffordd anwastad ar gyffordd Stryd y Coroni â Stryd Arthur**



**Ffotograff 4.14 a 4.15 – Bagiau sbwriel/ailgylchu yn lleihau lled y llwybr troed sydd ar gael ar hyd Heol y Mynydd**






**Ffotograff 4.16 – Llwybr troed deheuol ar hyd Heol Edmondstown yn arwain i Drebanog**



**Ffotograff 4.17 – Croesfan â signalau ger prif fynedfa'r ysgol**




**Ffotograff 4.18 – Prif fynedfa Ysgol Gyfun Cwm Rhondda**



## 4.3 Is-lwybr 1 – Pont-y-gwaith i Ysgol Gyfun Cwm Rhondda

4.3.1 Tynnwyd ffotograffau 4.19 i 4.43 ar hyd Is-lwybr 1 o Bont-y-gwaith i fynedfa ddwyreiniol Ysgol Gyfun Cwm Rhondda o Ffordd Graigwen.

4.3.2 Mae'r Prif Lwybr o fewn terfyn cyflymder o 20mya, gyda llifau a chyflymder cerbydau i'w gweld yn gymedrol, ac roedd nifer y cerddwyr yn isel i gymedrol yn ystod amser yr asesiad.

**Ffotograff 4.19 – Safle bws Pont-y-gwaith ar ddechrau'r is-lwybr**




**Ffotograff 4.20 – Parcio ar y stryd a llystyfiant wedi gordyfu yn lleihau'r lled defnyddiadwy ar hyd Heol y Bragdy**



**Ffotograff 4.21 – Man croesi heb ei reoli ar gyffordd Heol y Ffwrnais a Stryd Margaret**




**Ffotograff 4.22 – Croesfan sebra wedi'i rheoli ar Stryd Margaret gyferbyn â’r garej gwerthu ceir (ffordd ar gau i draffig trwodd ar adeg yr asesiad)**



**Ffotograff 4.23 – Croesfan sebra wedi'i rheoli ar Heol Aberllechau (ffordd ar gau i draffig trwodd ar adeg yr asesiad)**




**Ffotograff 4.24 – Mynedfa i lwybr Teithio Llesol Cwm Rhondda Fach oddi ar ffordd fynediad Parc Diwydiannol Select**



**Ffotograff 4.25 – Llwybr Teithio Llesol Cwm Rhondda Fach rhwng ffordd fynediad Parc Diwydiannol Select a throsbont yr A4233**




**Ffotograff 4.26 – Llwybr Teithio Llesol dros bont yr A4233 i Heol Ynys-hir**



**Ffotograff 4.27 – Man croesi heb ei reoli yn cysylltu llwybrau troed ar Heol Ynys-hir**



**Ffotograff 4.28 – Canghennau coed sy'n hongian a llystyfiant ar hyd Heol Ynys-hir**



**Ffotograff 4.29 – Croesfan sebra y tu allan i rif 89 Heol Ynys-hir**




**Ffotograff 4.30 – Croesfan sebra y tu allan i Morrisons Daily ar Heol Ynys-hir**



**Ffotograff 4.31 a 4.32 – Llystyfiant sy'n hongian a pharcio ar y stryd yn cyfyngu ar led llwybrau troed ar hyd Heol Ynys-hir**





**Ffotograff 4.33 – Croesfan sebra y tu allan i Doner King & Pizzanos ar Sgwâr Tynewydd**



**Ffotograff 4.34 – Croesfan sebra uchel y tu allan i Westy Tynewydd ar Heol Rheola**




**Ffotograff 4.35 – Croesfannau heb eu rheoli uchel y naill ochr i'r gyffordd fechan ar Heol Rheola**



**Ffotograff 4.36 – Croesfan sebra wedi'i rheoli ar gyffordd Heol Rheola â'r B4278**



**Ffotograffau 4.37 a 4.38 – Croesfannau wedi'u rheoli â signalau ar gyffordd Stryd y Porth â'r B4278**





**Ffotograff 4.39 – Croesfannau wedi'u rheoli fesul cam â signalau yn Sgwâr y Porth, sy'n croesi'r A4058**




**Ffotograffau 4.40 a 4.41 – Parcio ar y ffordd a llystyfiant wedi gordyfu yn lleihau lled y llwybr troed defnyddiadwy ar hyd y ffordd bengaead ar y Stryd Fawr**






**Ffotograffau 4.42 – Llwybr troed yn arwain at Ysgol Gyfun Cwm Rhondda ar hyd Ffordd Graigwen**




**Ffotograffau 4.43 – Cyffordd Ffordd Graigwen / Heol Herb wrth ddynesu at Ysgol Gyfun Cwm Rhondda**



## 4.4 Is-lwybr 2 – The Colliers, Trealaw i Sgwâr Tynewydd (gan ymuno ag Is-lwybr 1)

4.4.1 Tynnwyd ffotograffau 4.44 i 4.53 ar hyd Is-lwybr 2 o The Colliers, Trealaw i Sgwâr Tynewydd (gan ymuno ag Is-lwybr 1).

4.4.2 Mae'r Prif Lwybr o fewn terfyn cyflymder o 20mya, gyda llifau a chyflymder cerbydau i'w gweld yn gymedrol, ac roedd nifer y cerddwyr yn isel yn ystod amser yr asesiad.

**Ffotograffau 4.44 – The Colliers, Trealaw - dechrau'r llwybr**




**Ffotograff 4.45 – Croesfan sebra yn rhif 100 Heol Meisgyn**



**Ffotograff 4.46 – Croesfan sebra ar y B4278 Heol Brithweunydd gyferbyn â Swyddfa'r Post**




**Ffotograff 4.47 – Croesfan sebra uchel y tu allan i rif 126 ar y B4278 Heol Brithweunydd**



**Ffotograff 4.48 – Parcio ar y stryd yn lleihau lled y llwybr troed defnyddiadwy ar hyd y B4278 Heol Brithweunydd**




**Ffotograff 4.49 – Croesfan sebra uchel y tu allan i rif 71 ar y B4278 Ffordd y Fynwent**



**Ffotograff 4.50 – Croesfan heb ei rheoli uchel y tu allan i rif 90 ar y B4278 Ffordd y Fynwent**




**Ffotograff 4.9 – Croesfan sebra ger cyffordd Heol Bryn Hyfryd a'r B4278 Ffordd y Fynwent**



**Ffotograff 4.52 – Canghennau coed sy'n hongian ar y llwybr troed sy’n arwain i Sgwâr Tynewydd ar y B4278 Ffordd y Fynwent**




**Ffotograff 4.53 – Croesfan sebra uchel yn Sgwâr Tynewydd ar y B4278 Ffordd y Fynwent**



# 5. Arolygon Cerddwyr / Traffig

5.1 Mae Canllawiau Teithio gan Ddysgwyr yn nodi: Lle mae angen croesi ffyrdd, argymhellir y dylid ystyried argaeledd cyfleusterau croesi megis llochesi canolog, croesfannau cerddwyr neu arwyddion traffig. Lle nad oes cyfleusterau croesi, dylai asesiad risg y llwybr ystyried pob croesfan ffordd ofynnol, gan gofio cyflymder a llif traffig, llinellau gweld ac ati.

5.2 Os oes angen croesi ffyrdd dylai fod:

- Digon o fylchau yn llif y traffig a'r llinellau gweld i ganiatáu digon o gyfleoedd i groesi'n ddiogel. Dylai'r dadansoddiad amser bwlch gael ei ddefnyddio lle bo angen **neu**
- Llochesi i gerddwyr **neu**
- Cyfleusterau croesi (e.e. sebra, pelican, pâl ac ati) **neu**
- Cyfnod cerddwyr wrth y goleuadau traffig **neu**
- Hebryngwr Croesfan Ysgol.

5.3 Os oes angen croesi ffordd dylai'r gweledeedd yn y lleoliad ganiatáu i gerbyd stopio, o ystyried cyflymder yr 85$^{fed}$ canradd (y cyflymder y mae 85% o'r cerbydau'n teithio islaw) o'r llif traffig. Dylid cymryd pellteroedd stopio cerbydau fel y rhai a nodir yn Rheolau'r Ffordd Fawr. Mewn llawer o ardaloedd gwledig, mae'n debygol y bydd angen arfer barn barhaus. Ni all unrhyw feini prawf ddarparu'r holl arweiniad nac atebion i bob sefyllfa bosibl.

5.4 Os oes rhaid croesi ffyrdd i ddefnyddio troedffordd neu i wella llinellau gweld, efallai y bydd angen rhoi cyngor ar fannau croesi diogel. Ar rai ffyrdd gwledig efallai na fydd y droedffordd yn barhaus.

5.5 Bydd yn rhaid gwneud dyfarniad gwybodus ynghylch argaeledd mannau "cam i lawr".

5.6 Gellir asesu pa mor anodd yw croesi safle drwy ystyried nifer y bylchau yn llif y traffig sy'n dderbyniol i gerddwyr. Gall traffig sy'n llifo'n rhydd greu bylchau ar hap ac yn weddol aml, ond mae cyflymderau'n tueddu i fod yn uwch, a byddai angen i fylchau fod yn hirach er mwyn croesi'r ffordd yn ddiogel.

5.7 Mae bwlch derbyniol o ran croesi o un ochr y ffordd i'r llall yn amrywio rhwng pob person. Bydd y rhan fwyaf o bobl yn gallu croesi dwy lôn o draffig trefol arferol mewn 4 i 6 eiliad. Efallai y bydd angen bylchau mwy o tua 10 i 12 eiliad ar rai eraill.

5.8 Argymhellir bod yr arolwg yn cofnodi nifer y bylchau ym mhob cyfnod o 5 munud sy'n hwy nag amser croesi'r ffordd, gan ddefnyddio un metr yr eiliad fel y cyflymder cerdded. Mae pedwar bwlch ym mhob cyfnod o 5 munud yn dynodi ffordd y gellir ei chroesi heb ormod o oedi. Gallai bylchau hirach fod wedi'u dosbarthu'n fylchau lluosog yn hytrach nag 1 bwlch yn unig.

5.9 Gyda'r meini prawf uchod mewn golwg, cynhaliwyd arolygon traffig i sefydlu llifoedd, cyflymder yr 85$^{fed}$ canradd a bylchau croesi yn y lleoliadau canlynol:

5.9.1 **Is-lwybr 1 (rhan amgen)** – Ffordd Osgoi'r Porth yr A4233 ar gylchfan 4 braich (ger Travis Perkins) Heol Aberllechau a Heol Ynys-hir â'r A4233, lleoliad croesi heb ei reoli i gerddwyr ar yr ynys hollti er mwyn sicrhau cysylltedd rhwng Heol Aberllechau a Heol Ynys-hir.




5.10 Cynhaliodd Swyddogion Trafnidiaeth RhCT gyfrifiadau traffig yn y lleoliad uchod.

5.11 Mae'r Ddarpariaeth Statudol a Chanllawiau Gweithredol Teithio gan Ddysgwyr – Mehefin 2014 yn amlinellu'r hyn sydd ei angen wrth asesu Llif Traffig ar Ffyrdd.

5.11.1 Ystyr llif traffig isel yw ffyrdd sydd â llif traffig o dan 400 o gerbydau mewn cyfnod o awr; llif traffig canolig yw ffyrdd sydd â llif traffig rhwng 400 ac 840 cerbyd yr awr; a llif traffig trwm yw ffyrdd sydd â llif traffig o dros 840 o gerbydau yr awr.

5.11.2 Bydd y rhan fwyaf o bobl yn gallu croesi dwy lôn o draffig trefol arferol mewn 4 i 6 eiliad. Ystyrir bod pedwar bwlch o'r fath o fewn cyfnod o 5 munud yn dderbyniol. Ar gyfer yr adroddiad hwn, rydym wedi defnyddio 6 eiliad a lle mae'r bwlch yn fwy na neu'n hafal i 12 eiliad mae hyn wedi'i gyfrif fel 2 neu fwy o fylchau.

5.12 Cynhaliwyd cyfrifiadau traffig mewn 4 lleoliad gwahanol fel y manylir isod, gyda chyfrifiadau rhwng 07:15 a 08:15 a 15:15 a 16:15. Yn unol â Chanllawiau Teithio gan Ddysgwyr, mae'r cyfnod a gofnododd y traffig mwyaf wedi'i gynnal eto i gadarnhau dibynadwyedd y data.

5.12.1 **Lleoliad 1 – Ger Travis Perkins, (Wattstown) o Heol Aberllechau a Heol Ynys-hir gyda'r A4233 (Ochr y Gogledd) – 23/10/2024**

- **Yn y bore:** 425 cerbyd yr awr, llif traffig canolig. Roedd bylchau o 6 eiliad yn ystod pob cyfnod o 5 munud yn amrywio o 16 i 34, gyda chyfanswm o 286 o fylchau dros y cyfnod awr.

- **Yn y prynhawn:** 633 cerbyd yr awr, llif traffig canolig. Roedd bylchau o 6 eiliad yn ystod pob cyfnod o 5 munud yn amrywio o 12 i 26, gyda chyfanswm o 203 o fylchau dros y cyfnod awr.

5.12.2 **Lleoliad 1 – Ger Travis Perkins, (Wattstown) o Heol Aberllechau a Heol Ynys-hir gyda'r A4233 (Ochr y Gogledd) – 24/10/2024**

- **Yn y prynhawn:** 638 cerbyd yr awr, llif traffig canolig. Roedd bylchau o 6 eiliad yn ystod pob cyfnod o 5 munud yn amrywio o 9 i 27, gyda chyfanswm o 220 o fylchau dros y cyfnod awr.

**Mae'r llif traffig a'r bylchau yn y lleoliad hwn ar gyfer y bore a'r prynhawn yn bodloni'r meini prawf a amlinellir yn y Canllawiau Teithio gan Ddysgwyr.**

5.12.3 **Lleoliad 2 – Ger Travis Perkins, (Wattstown) o Heol Aberllechau a Heol Ynys-hir gyda'r A4233 (Ochr y De) – 23/10/2024**

- **Yn y bore:** 503 cerbyd yr awr, llif traffig canolig. Roedd bylchau o 6 eiliad yn ystod pob cyfnod o 5 munud yn amrywio o 16 i 24, gyda chyfanswm o 234 o fylchau dros y cyfnod awr.

- **Yn y prynhawn:** 399 cerbyd yr awr, llif traffig isel i ganolig. Roedd bylchau o 6 eiliad yn ystod pob cyfnod o 5 munud yn amrywio o 11 i 34, gyda chyfanswm o 270 o fylchau dros y cyfnod awr.

5.12.4 **Lleoliad 2 – Ger Travis Perkins, (Wattstown) o Heol Aberllechau a Heol Ynys-hir gyda'r A4233 (Ochr y De) – 23/10/2024**

- **Yn y bore:** 561 cerbyd yr awr, llif traffig canolig. Roedd bylchau o 6 eiliad yn ystod pob cyfnod o 5 munud yn amrywio o 12 i 24, gyda chyfanswm o 203 o fylchau dros y cyfnod awr.

**Mae'r llif traffig a'r bylchau yn y lleoliad hwn ar gyfer y bore a'r prynhawn yn bodloni'r meini prawf a amlinellir yn y Canllawiau Teithio gan Ddysgwyr.**

# 6. Materion Cymdeithasol

6.1 Ar ran fer tua 380m o hyd o lwybr troed defnydd a rennir ar hyd Llwybr Rhondda Fach rhwng y mynediad i Howdens Joinery a’r bont dros yr A4233 sy'n cysylltu ag Ynys-hir, mae coed a dail sy'n hongian dros y llwybr troed defnydd a rennir, sy'n ei gwneud yn fwy tywyll. Efallai byddai rhai cerddwyr yn ystyried hyn yn rhan unig. Nid oes unrhyw adeiladau sy'n edrych dros y rhan hon ac nid oes gwyliadwriaeth naturiol, ac eithrio cerddwyr eraill. Fodd bynnag, nodir bod y llwybr hwn ar gael ar hyn o bryd ac yn cael ei ddefnyddio bob dydd gan rieni a disgyblion sy'n cerdded o Wattstown Isaf ac Ynys-hir i Ysgol Gymuned y Porth. Byddai’n fuddiol pe bai llystyfiant yn cael ei glirio i wella cysur cerddwyr, a lefelau goleuo - gweler **Ffotograff 6.1** isod.

**Ffotograff 6.1 – Is-lwybr 1 - Llwybr Rhondda Fach rhwng Howdens Joinery a phont yr A4233**




6.2 Efallai y bydd materion eraill nad ydynt yn amlwg o asesiad ar droed, y byddai grwpiau defnyddwyr eraill yn eu nodi. Byddai angen i'r awdurdod lleol ystyried yr agweddau hyn gyda'r Heddlu ac asiantaethau diogelu eraill.

# 7. Data Gwrthdrawiadau

7.1 Ymchwiliwyd i ddata gwrthdrawiadau cerddwyr ar gyfer y 5 mlynedd rhwng 2020 a 2024 (wedi'u dilysu) trwy Crashmap.co.uk a data Gwrthdrawiadau Ffyrdd a Gofnodwyd gan yr Heddlu. Sylwch fod y Ddarpariaeth Statudol a Chanllawiau Gweithredol Teithio gan Ddysgwyr yn ei gwneud yn ofynnol i aseswyr ymgorffori 3 blynedd o hanes gwrthdrawiadau wrth asesu llwybr.

7.2 Mae'r data gwrthdrawiadau wedi cael ei ymchwilio yn ystod yr amseroedd y byddai plant ysgol yn cerdded y llwybr i nodi amodau traffig arferol yn ystod yr amser. Mae'r amseroedd hyn wedi'u nodi'n 07:00 – 09:30 ar gyfer taith yn y bore, a 14:30 – 17:00 ar gyfer taith yn y prynhawn.

7.3 Digwyddodd y gwrthdrawiadau canlynol yn ystod y cyfnod a aseswyd:

**Prif Lwybr**

1 gwrthdrawiad a arweiniodd at fân anafiadau ar Stryd Dunraven ychydig i'r gogledd o Drem yr Afon Dyddiad 11/05/2022.

**Is-lwybr 1**

Nid oedd unrhyw wrthdrawiadau a oedd yn ymwneud â cherddwyr ar hyd yr is-lwybr yn ystod y cyfnod a aseswyd.

**Is-lwybr 2**

1 gwrthdrawiad a arweiniodd at fân anafiadau ar Sgwâr Tynewydd i'r gorllewin o Heol Aber-rhondda. Dyddiad 18/04/2023.

# 8. Trosolwg Llwybr

## 8.1 Prif Lwybr – Gorsaf Fysiau Tonypandy i Ysgol Gyfun Cwm Rhondda

8.1.1 Mae darnau di-dor o droedffordd mewn cyflwr rhesymol ar hyd y llwybr.

8.1.2 Mae rhannau lleol o'r llwybr lle mae bagiau bin a biniau ar olwynion yn lleihau lled y llwybr troed, a allai olygu bod angen i gerddwyr ildio i'w gilydd. Gall cerbydau sy'n rhwystro llwybrau troed hefyd effeithio ar lwybrau cerdded, ond mae'r carfanau plismona cymdogaeth leol yn gweithio gyda thrigolion i helpu i leihau'r risgiau i gerddwyr gan gerbydau sydd wedi'u parcio fan hyn a fan draw.

8.1.3 Mae goleuadau stryd ar hyd y llwybr, er bod angen gwaith cynnal a chadw parhaus ar goed mewn rhai ardaloedd i sicrhau nad yw lefelau golau yn cael eu peryglu.

8.1.4 Mae ymchwiliad i wrthdrawiadau a arweiniodd at farwolaeth cerddwyr am y 5 mlynedd rhwng 2020 a 2024 wedi'i gynnal. Mae'r data'n dangos bod gwrthdrawiad wedi arwain at fân anafiadau i gerddwr yn ystod y cyfnod dan sylw..

8.1.5 Ar ffyrdd ymyl, ystyriwyd bod yr amodau a arsylwyd yn darparu amgylchedd diogel i gerddwyr groesi. Aseswyd bod risg isel o wrthdaro rhwng cerbydau / cerddwyr, a nodwyd bod digon o fylchau croesi i gydymffurfio â Chanllawiau Teithio gan Ddysgwyr. Ar adeg yr ymweliad safle, pan welwyd cerddwyr yn croesi, roeddent yn gallu gwneud hynny heb unrhyw drafferthion.

8.1.6 Mae cyfleusterau croesi yn y lleoliadau canlynol:

- Croesfan Sebra – Y tu allan i Feddygfa St Andrews ar Stryd De Winton, Tonypandy.
- Croesfan Sebra - Y tu allan i'r salon gwallt ar Stryd Dunraven, Tonypandy.
- Croesfannau heb eu rheoli – Trwy ganol y dref ar hyd Stryd Dunraven, Tonypandy.
- Croesfannau â signalau - Ar draws y gyffordd 4 braich ger Iceland ar Stryd Dunraven, Tonypandy.
- Croesfan heb ei rheoli – Mae lloches i gerddwyr ar gyffordd Stryd Dunraven a Heol Tyle-celyn, ger y Welcome Inn, Tonypandy.
- Croesfan heb ei rheoli – Mae lloches i gerddwyr ar Heol Tyle-celyn, gyferbyn â'r Welcome Inn, Tonypandy.
- Croesfan â signalau – Y tu allan i'r Co-op ar y B4278 Heol Tyle-celyn, Pen-y-graig.
- Croesfan sebra – Tu allan i siop tecawê Sliver Lounge ar y B4278 Heol Tyle-celyn, Pen-y-graig.
- Croesfan sebra – Parcio y tu allan i Deras yr Elyrch, Pen-y-graig.
- Croesfan heb ei rheoli - Mae rhwystrau ymwthiol i gerddwyr ger rhif 40 Stryd Arthur, gyferbyn â safle'r hen ysgol, Trewiliam.
- Croesfan â signalau – Wrth brif fynedfa'r ysgol ar yr A4233 Ffordd Trebanog, Trebanog.

8.1.7 Nododd yr arolwg ar droed bod y llwybrau troed yn rhai sydd wedi'u cysylltu'n dda, gyda chyfleusterau croesi digonol (rhai wedi'u rheoli a heb eu rheoli) a chyfnodau digonol wrth oleuadau traffig i gerddwyr allu croesi'n ddiogel, neu O ganlyniad, ni ofynnwyd am ragor o wybodaeth am lifoedd traffig na gwybodaeth arolwg bylchau.

## 8.2 Is-lwybr 1 - Pont-y-gwaith i Ysgol Gyfun Cwm Rhondda

8.2.1 Mae darnau di-dor o droedffordd mewn cyflwr rhesymol ar hyd y llwybr.

8.2.2 Mae coed a llystyfiant sy'n hongian dros y llwybr troed defnydd a rennir ar hyd Llwybr Rhondda Fach rhwng cyffordd Howdens Joinery a chyswllt trosbont yr A4233 i Ynys-hir, sy'n ei wneud yn fwy tywyll. Mae canghennau coed sy'n hongian a llystyfiant hefyd yn ymledu i lwybrau troed ar hyd rhannau eraill o'r llwybr, gan wneud lled y llwybrau troed tua 1m yn unig.. Efallai byddai angen i gerddwyr ildio i'w gilydd. Peth da fyddai cynnal gwaith cynnal a chadw parhaus ar y llystyfiant ar hyd y llwybr.

8.2.3 Mae rhannau lleol o’r llwybr lle mae bagiau bin a biniau ar olwynion yn lleihau lled y llwybr troed, a allai olygu bod angen i gerddwyr ildio i’w gilydd. Gall cerbydau sy'n rhwystro llwybrau troed hefyd effeithio ar lwybrau cerdded, ond mae'r carfanau plismona cymdogaeth leol yn gweithio gyda thrigolion i helpu i leihau'r risgiau i gerddwyr gan gerbydau sydd wedi'u parcio fan hyn a fan draw.

8.2.4 Mae goleuadau stryd ar hyd y llwybr. Fodd bynnag, peth da fyddai torri coed a llystyfiant ar ran o lwybr troed defnydd a rennir ar hyd Llwybr Rhondda Fach rhwng cyffordd Howdens Joinery a chyswllt trosbont yr A4233 i Ynys-hir er mwyn sicrhau ei bod mor olau â phosibl.

8.2.5 Mae ymchwiliad i wrthdrawiadau cerddwyr wedi’i gynnal rhwng 2020 a 2024. Nid oedd unrhyw wrthdrawiadau a oedd yn ymwneud â cherddwyr yn ystod yr amseroedd a aseswyd.

8.2.6 Ar ffyrdd ochrog, ystyriwyd bod yr amodau a arsylwyd yn darparu amgylchedd diogel i gerddwyr groesi. Aseswyd bod risg isel o wrthdaro rhwng cerbydau / cerddwyr, a nodwyd bod digon o fylchau croesi i gydymffurfio â'r Canllawiau Teithio gan Ddysgwyr. Ar adeg yr ymweliad safle, pan welwyd cerddwyr yn croesi, roeddent yn gallu gwneud hynny heb unrhyw drafferthion.

8.2.7 Mae cyfleusterau croesi yn y lleoliadau canlynol:

- Croesfan Sebra – Y tu allan i'r maes gwerthu ceir ar Stryd Margaret, Pont-y-gwaith.
- Croesfan Sebra – Tu allan i rif 1 Heol Aberllechau, Pont-y-gwaith.
- Croesfan Sebra – Tu allan i Ganolfan Feddygol Ynys-hir ar Heol Ynys-hir, Ynys-hir.
- Croesfan Sebra – Tu allan i Morrisons Daily (rhif 34 Heol Ynys-hir) ar Heol Ynys-hir, Ynys-hir.
- Croesfan sebra wedi'i rheoli y tu allan i Doner King & Pizzanos ar Sgwâr Tynewydd, Porth.
- Croesfan Sebra – Tu allan i westy'r Tynewydd ar Sgwâr Tynewydd, Porth.
- Croesfan Sebra – Ar gyffordd y bront dros y rheilffordd ar y B4278 Heol Rheola, Porth.
- Croesfan â Signalau – Ar y gyffordd â signalau ar yr A4233 a'r B4278 Heol Rheola, Porth.
- Croesfan â Signalau – Ar yr A4233 i gysylltu â'r Stryd Fawr, Porth.
- Croesfan â Signalau – Ar gyffordd 4 braich yr A4233 / Stryd Fawr / Heol Glynfach, Porth.

8.28 Nid oes gan ran o'r llwybr ar hyd y llwybr troed defnydd a rennir ar Lwybr Rhondda Fach rhwng cyffordd Howdens Joinert a phont yr A4233 i Ynys-hir unrhyw adeiladau sy'n edrych dros y llwybr na gwyliadwriaeth naturiol. Efallai bod rhai cerddwyr yn ystyried y rhan hon yn unig. Dylid nodi bod llwybr arall 'ar gael' yn bodoli o gyffordd Howdens Joinery, ar hyd Heol Aberllechau i'r gylchfan gyda'r A4233. Mae'r llwybr hwn yn cynnig dewis arall yn lle cerdded dros y bont droed i Heol Ynys-hir, ac mae ynysoedd lloches i gerddwyr ar y gylchfan i helpu cerddwyr i groesi**,** er efallai y bydd angen arolygon i gadarnhau bod bylchau digonol yn y traffig.

8.2.9 Nododd yr arolwg ar droed bod y llwybrau troed yn rhai sydd wedi'u cysylltu'n dda, gyda chyfleusterau croesi digonol (rhai wedi'u rheoli a heb eu rheoli) a chyfnodau digonol wrth oleuadau traffig i gerddwyr allu croesi'n ddiogel. Fodd bynnag, o ganlyniad i'r posibilrwydd bod y llwybr amgen rhwng cyffordd Howdens Joinery a Heol Ynys-hir ar gael, mae rhagor o wybodaeth am lif traffig ac arolwg bylchau wedi'i chasglu a'i hasesu. Daeth yr arolygon hyn i'r casgliad bod y rhan o'r 'llwybr amgen' ar gael.

## 8.3 Is-lwybr 2 — The Colliers, Trealaw i Sgwâr Tynewydd (cysylltiadau ag Is-lwybr 1)

8.3.1 Mae darnau di-dor o droedffordd mewn cyflwr rhesymol ar hyd y llwybr.

8.3.2 Mae rhannau lleol o'r llwybr lle mae bagiau bin a biniau ar olwynion yn lleihau lled y llwybr troed, a allai olygu bod angen i gerddwyr ildio i'w gilydd. Gall cerbydau sy'n rhwystro llwybrau troed hefyd effeithio ar lwybrau cerdded, ond mae'r carfanau plismona cymdogaeth leol yn gweithio gyda thrigolion i helpu i leihau'r risgiau i gerddwyr gan gerbydau sydd wedi'u parcio fan hyn a fan draw.

8.3.3 Mae goleuadau stryd ar hyd y llwybr, er bod angen gwaith cynnal a chadw parhaus ar goed mewn rhai ardaloedd i sicrhau nad yw lefelau golau yn cael eu peryglu.

Mae ymchwiliad i wrthdrawiadau a arweiniodd at farwolaeth cerddwyr am y 5 mlynedd rhwng 2020 a 2024 wedi'i gynnal. Mae'r data'n dangos bod gwrthdrawiad wedi arwain at fân anafiadau i gerddwr yn ystod y cyfnod dan sylw.

8.3.4 Ar ffyrdd ymyl, ystyriwyd bod yr amodau a arsylwyd yn darparu amgylchedd diogel i gerddwyr groesi. Aseswyd bod risg isel o wrthdaro rhwng cerbydau / cerddwyr, a nodwyd bod digon o fylchau croesi i gydymffurfio â Chanllawiau Teithio gan Ddysgwyr. Ar adeg yr ymweliad safle, pan welwyd cerddwyr yn croesi, roeddent yn gallu gwneud hynny heb unrhyw drafferthion.

8.3.5 Mae cyfleusterau croesi wedi'u rheoli yn y lleoliadau canlynol:

- Croesfan Sebra – Tu allan i rif 64 Heol Meisgyn ar gyffordd Stryd Rhys â Heol Meisgyn, Trealaw.
- Croesfan Sebra – Tu allan i'r Miskin Hotel ar Heol Trealaw, islaw cyffordd Heol Trealaw a Heol Meisgyn, Trealaw.
- Croesfan Sebra – Tu allan i'r hen Swyddfa'r Post ar y B4278 Heol Brithweunydd, ar gyffordd Heol yr Orsaf a Heol Brithweunydd, Trealaw.
- Croesfan Sebra – Tu allan i rif 126 Heol Brithweunydd, ger cyffordd Heol Alaw a Heol Brithweunydd, Trealaw.

- Croesfan Sebra – Ger y gyffordd i fynedfa orllewinol Ysgol Gymuned y Porth/Maes 3G, ar y B4278 Ffordd y Fynwent, Porth.
- Croesfan Sebra – Ger cyffordd Heol Bryn Hyfryd â Ffordd y Fynwent, ar y B4278 Ffordd y Fynwent, Porth.

8.3.6 Nododd yr arolwg ar droed bod y llwybrau troed yn rhai sydd wedi’u cysylltu’n dda, gyda chyfleusterau croesi digonol (rhai wedi'u rheoli a heb eu rheoli) a chyfnodau digonol wrth oleuadau traffig i gerddwyr allu croesi’n ddiogel. O ganlyniad, ni ofynnwyd am ragor o wybodaeth am lifoedd traffig na gwybodaeth arolwg bylchau.

# 9. Casgliad ac Argymhellion

## 9.1 Prif Lwybr – Gorsaf Fysiau Tonypandy i Ysgol Gyfun Cwm Rhondda

9.1.1 Mae'r llwybr yn bodloni'r meini prawf ac ystyrir ei fod ar gael i'w gerdded yn unol â chanllawiau Teithio gan Ddysgwyr. ***Serch hynny, gellid ystyried gwelliannau pellach i'r llwybr cerdded*** i wella amodau ar gyfer defnyddwyr y llwybr. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- Monitro cyflwr coed a dail sy'n hongian. Lle mae coed a/neu ddail yn hongian neu'n ymledu i lwybrau troed, dylid torri'r ardaloedd hyn yn ôl i wella'r lled defnyddiadwy, llinellau gweld a gwyliadwriaeth naturiol.  Yn ogystal â hyn, dylid symud malurion dail oddi ar lwybrau troed pan fo angen.

- Monitro rhwystrau troedffyrdd. Lle mae lled llwybrau troed wedi'u cyfyngu gan fagiau bin a cheir wedi'u parcio, dylid gweithredu ar y cyd ag Adran briodol y Cyngor / carfanau plismona cymdogaeth leol.

## 9.2 Is-lwybr 1 – Pont-y-gwaith i Ysgol Gyfun Cwm Rhondda

9.2.1 Mae'r llwybr yn bodloni'r meini prawf ac ystyrir ei fod ar gael i gerdded yn unol â chanllawiau Teithio gan Ddysgwyr. ***Serch hynny, gellid ystyried gwelliannau pellach i'r llwybr cerdded*** i wella amodau ar gyfer defnyddwyr y llwybr. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- Monitro cyflwr coed a dail sy'n hongian. Lle mae coed a/neu ddail yn hongian neu'n ymledu i lwybrau troed, dylid torri'r ardaloedd hyn yn ôl i wella'r lled defnyddiadwy, llinellau gweld a gwyliadwriaeth naturiol. Yn ogystal â hyn, dylid symud malurion dail oddi ar lwybrau troed a llwybrau a rennir pan fo angen.

- Monitro rhwystrau troedffyrdd. Lle mae lled llwybrau troed wedi'u cyfyngu gan fagiau bin a cheir wedi'u parcio, dylid gweithredu ar y cyd ag Adran briodol y Cyngor / carfanau plismona cymdogaeth leol.

## 9.3 Is-lwybr 2 – The Colliers, Trealaw i Sgwâr Tynewydd (cysylltiadau i Is-lwybr 1)

9.3.1 Mae'r llwybr yn bodloni'r meini prawf ac ystyrir ei fod ar gael i gerdded yn unol â chanllawiau Teithio gan Ddysgwyr. ***Serch hynny, gellid ystyried gwelliannau pellach i'r llwybr cerdded*** i wella amodau ar gyfer defnyddwyr y llwybr. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- Monitro cyflwr coed a dail sy'n hongian. Lle mae coed a/neu ddail yn hongian neu'n ymledu i lwybrau troed, dylid torri'r ardaloedd hyn yn ôl i wella'r lled defnyddiadwy, llinellau gweld a gwyliadwriaeth naturiol. Yn ogystal â hyn, dylid symud malurion dail oddi ar lwybrau troed pan fo angen.

- Monitro rhwystrau troedffyrdd. Lle mae lled llwybrau troed yn parhau i gael ei gyfyngu gan fagiau bin a cheir wedi'u parcio, dylid gweithredu ar y cyd ag Adran briodol y Cyngor / carfanau plismona cymdogaeth leol.

REDSTART

Quest House
St Mellons Business Park
Fortran Rd, St. Mellons
Cardiff
CF3 0EY

www.redstartwales.com